

CHILD POVERTY ACTION GROUP

# Y GOST O GAEL HWYL YN YR YSGOL

MAWRTH 2022

"S'dim byd am ddim. Os i chi'n ffaelu talu am y digwyddiadau arbennig, gewch chi ddim mynd"
*(Disgybl, 6 oed)*

Children North East Poverty Proofing

COST Y DIWRNOD YSGOL

©Monkey Business Images, Shutterstock

# Cynnwys


Trosolwg ..... 3
Rhagymadrodd ..... 4
Crynodeb o'r prif ganfyddiadau ..... 5
Argymhellion allweddol ..... 6
Codi arian yn yr ysgol ..... 7
Diwrnodau di-wisg ysgol ..... 12
Achlysuron arbennig a dathliadau ..... 16
Dathliadau ffarwelio a chyfnodau pontio ..... 24
Ysgolion yn gweithredu ..... 28
Canllawiau: ..... 31
- Ar gyfer ysgolion ..... 32
- Ar gyfer cymdeithasau rhieni ..... 34
- Ar gyfer elusennau ..... 36

Amdanom ni ..... 37




©Monkey Business Images, Shutterstock

# Trosolwg

Mae'r dyfyniadau a'r profiadau a gasglwyd yn yr adroddiad hwn yn hannu o'n gwaith gyda **32 ysgol ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban** drwy brosiect Cost y Diwrnod Ysgol, Child Poverty Action Group (CPAG) a Children North East. Mae'n tynnu sylw at yr hyn rydym wedi'i glywed gan grwpiau ffocws gyda **dros 8,000** o ddisgyblion yn ogystal â barn rhieni a gofalwyr.

Cefnogir y canfyddiadau gan waith parhaus ehangach sy'n cael ei wneud gan Children North East drwy'r prosiect Poverty Proofing© the School Day, sydd wedi gweithio gyda 390 o ysgolion yn Lloegr gan gyrraedd 170,890 o ddisgyblion. Y ogystal, mae'r adroddiad yn tynnu ar yr hyn a ddysgwyd gan brosiect Cost y Diwrnod Ysgol a redwyd gan CPAG yn yr Alban.

Gan ddwyn ynghyd yr ymchwil a'r arbenigedd hwn, mae CPAG a Children North East yn ceisio tynnu sylw pwysig at gostau ysgol sy'n aml yn gudd ond sy'n atal plant o gefndiroedd tlotach rhag manteisio'n llawn ar fywyd ysgol.

Yn ystod ein sgyrsiau gyda phlant a phobl ifanc ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban ynghylch effaith tlodi ar y diwrnod ysgol, **mae straeon o blant yn colli allan ar hwyl a sbri a gweithgareddau a digwyddiadau arbennig oherwydd y gost a'r pwysau yn gyffredin.**

I lawer o blant, y digwyddiadau, dathliadau a gweithgareddau arbennig yw rhai o'r pethau maen nhw'n eu cofio fwyaf am eu hamser yn yr ysgol. Gwyddom fod llawer o ddisgyblion yn edrych ymlaen at y gweithgareddau hyn ac yn elwa yn fawr ohonynt, a dyna pam eu bod yn rhan bwysig o'r flwyddyn ysgol. Fodd bynnag, i rai plant, **mae'r dyddiau a'r digwyddiadau hyn yn tynnu sylw at amgylchiadau ariannol eu teuluoedd**, ac maent yn eu hatgoffa yn rhy aml o lawer nad ydynt, yn wahanol i'w cyfoedion, yn gallu ymuno â'r holl gyfleoedd sydd gan yr ysgol i'w cynnig.

Ond does dim rhaid parhau fel hyn. Drwy ein hymchwil, rydym wedi casglu syniadau ac awgrymiadau gan ddisgyblion a theuluoedd ynghylch sut y gellir gwneud pethau'n wahanol. Rydym hefyd wedi dysgu o arfer da mewn ysgolion, ac mae'r papur hwn yn helpu i dynnu sylw at y canfyddiadau hyn a darparu **argymhellion ymarferol ar gyfer ysgolion, cyrff rhieni ac elusennau i sicrhau y gall pob plentyn wneud y gorau o'r diwrnod ysgol.**

Wrth gwrs, ni all cymuned ysgol ddileu tlodi plant ar ei liwt ei hun nac atal yr effaith y mae tlodi'n ei gael ar blant. Am ragor o wybodaeth am achosion tlodi plant a'r newidiadau ehangach sydd eu hangen i roi terfyn ar dlodi plant, gweler cpag.org.uk/child-poverty.

# Rhagymadrodd

## Cefndir costau sy'n gysylltiedig â'r ysgol

Er bod addysg ledled y DU yn ymddangos yn 'rhad ac am ddim', gwyddom fod llawer o blant a theuluoedd yn ei chael yn anodd rheoli'r costau niferus sy'n gysylltiedig â mynd i'r ysgol. Gall hyn gael effaith ar brofiadau plant o fywyd ysgol a'u canlyniadau.

Mae'n hymchwil ar draws cymunedau ysgol yn y DU yn dangos bod pethau fel gwisg ysgol, tripiau, prydau ysgol, dillad ymarfer corff, deunydd ysgrifennu, dyfeisiadau a chostau pwnc yn gallu fod yn anodd eu fforddio i deuluoedd incwm isel. Fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn edrychwn yn arbennig ar y costau a'r heriau aml a rheolaidd sy'n gysylltiedig â digwyddiadau hwyliog yn yr ysgol, gan fod y rhain wedi codi fel thema gyffredin yn ein hymchwil.

Er bod costau sy'n gysylltiedig ag ysgol bob amser wedi bod yn her i deuluoedd incwm isel, mae costau byw cynyddol yn ogystal â'r toriad diweddar o £20 i gredyd cynhwysol yn cyfrannu at bryderon a chaledi teuluol. Ni ddylai teuluoedd orfod poeni am gost digwyddiadau hwyliog yn yr ysgol ar ben popeth arall.

## Digwyddiadau hwyliog yn yr ysgol

Mae disgyblion a rhieni wedi rhannu amryw ffyrdd y gall digwyddiadau ysgol megis diwrnodau elusen, gweithgareddau codi arian, diwrnodau di-wisg, ffeiriau ysgol, digwyddiadau arbennig a dathliadau ffarwelio greu costau a gofynion cudd i deuluoedd sy'n aml yn methu cwrdd a'r gofynion hyn, gan olygu bydd rhai plant yn teimlo allan ohoni ac ynwahanol i'w cyfoedion.

Mae cael hwyl yn yr ysgol yn golygu gofynion am arian, gwisgoedd a rhoddion, sy'n adeiladu i fod yn swm sylweddol dros y flwyddyn ac yn cyfrannu at yr heriau ariannol y mae llawer o deuluoedd yn eu hwynebu.

Yn wir, rydym yn gwybod bod ysgolion yn gweithio'n galed i gynnig ystod eang o gyfleoedd hwyliog a diddorol i ddisgyblion sy'n cyfoethogi eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r profiad o fod wedi eu hynysu y mae rhai disgyblion a theuluoedd yn cael yn yr ysgol bron bob tro yn anfwriadol. Mae llawer o blant a theuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel yn mynd i drafferth i guddio'r sefyllfa, a gall hyn olygu bod ysgolion yn anymwybodol o'r effaith y mae gweithgareddau difyr yn eu chael arnynt. Serch hynny, y mae'n glir o'n gwaith ymchwil bod hyd yn oed gofynion unigryw a chymhedrol yn anodd i deuluoedd sy'n cael trafferthion, ac mewn amryw ysgol ar draws y DU, gall y costau rhain adeiladu a dod yn faich cyffredin ar fywyd ysgol. Mae ein hymchwil hefyd yn amlygu syniadau y mae disgyblion a theuluoedd wedi awgrymu a all helpu i wneud digwyddiadau hwyliog yn fwy cynhwysol, yn ogystal â disgrifio'r pethau sy'n gweithio'n dda iddynt yn eu hysgol. Mae llawer o ysgolion yn dod o hyd i ffyrdd creadigol a gwahanol o ddathlu achlysuron a diwrnodau elusennol heb rhoi'r faich ar blant a theuluoedd gyda chostau diangen. Rydym wedi tynnu sylw at nifer o'r rhain drwy gydol y papur i helpu i sbarduno syniadau a rhannu arfer da.

## Ein nod

Mae CPAG a Children North East yn gobeithio bydd yr adroddiad hwn yn galluogi ysgolion, addysgwyr, cyrff rhieni ac elusennau i ddeall yn well sut y gall rhai gweithgareddau effeithio'n negyddol ar rai plant. Drwy gydweithio a gwrando ar blant a'u teuluoedd, gallwn sicrhau bod digwyddiadau difyr yn yr ysgol yn agored i bawb. Fel pobl sy'n gweithio mewn ysgolion a gydag ysgolion, mae gennym gyfrifoldeb i'n plant ein bod yn sicrhau nad yw unrhyw agwedd o'r byd ysgol yn eithrio unrhywun o ganlyniad i incwm teulu., gan gynnwys y gweithgareddau cyfoethog, difyr sydd wrth fodd pob plentyn.

# Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae'r dudalen hon yn nodi canfyddiadau allweddol gwaith ymchwil Child Poverty Action Group a Children North East ar ddigwyddiadau hwyliog yn yr ysgol, gan ddefnyddio gwaith a wnaed gyda disyblion a theuluoedd mewn ysgolion ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

## 1 Mae codi arian mewn ysgolion a diwrnodau elusennol yn ychwanegu at bwysau ariannol ar deuluoedd.

Mae rhai disgyblion a'u teuluoedd sy'n brwydro i gael dau ben llinyn ynghyd yn gwynebu gofynion rheolaidd am roddion elusennol neu ddiwrnodau codi arian yn yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at bryderon ariannol.

"Weithiau mae'n teimlo fel bod nhw'n gofyn am gryn dipyn o arian. Alla i ddim ei wneud os yw'n rhy aml. Mae'n rhaid i ni dalu am bethau pwysicach yn gyntaf." (Rhiant)

## 2 Dim pawb sy'n medru cymryd rhan a mwynhau ar y diwrnodau gwisg ffansi a'r diwrnodau di-wisg.

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym nad oedden nhw'n cymryd rhan ar ddiwrnodau dim gwisg ysgol oherwydd y costau cysylltiedig a'r pwysedd cymdeithasol. Roeddynt weithiau yn teimlo cywilydd ac yn teimlo allan ohoni. Soniodd athrawon, bod rhai yn colli ysgol er mwyn osgoi'r pwysedd hyn: "Maen nhw'n siarad y tu ôl i'ch cefn [am yr hyn 'dych chi'n gwisgo] ac yn syllu arnoch chi." (Disgybl, 12 oed)

## 3 Gall ddigwyddiadau fel ffeiriau ysgol a stondinau gwerthu llyfrau dynnu sylw at wahaniaethau rhwng disgyblion incwm isel a'u cyfoedion.

Teimlodd rhai plant eu bod yn cael eu hynysu ac yn wahanol rhyw fodd i'w ffrindiau, am nad oedden nhw'n medru mynychu neu fwynhau digwyddiadau fel ffair yr ysgol neu stondinau llyfrau oherwydd diffyg arian. "Mae fe bach o boen achos pan wyt ti'n gweld dy ffrindiau yn dod mas [o'r ffair] ma fe wir yn tynnu arnat. Ma fe'n teimlo'n annifyr" (Disgybl, 10 oed)

## 4 Mae dathliadau ffarwelio drud yn rhoi rhieni mewn cyfyng-gyngor ofnadwy

Mewn rhai ysgolion mae dathliadau ffarwelio, megis tripiau preswyl a phartïon yn costio dros £200. Mae hyn yn creu her fawr i rieni incwm isel nad sydd am weld eu plant yn colli allan ond sy'n methu fforddio'r costau sylweddol hyn. "'Dyw ysgolion ddim yn meddwl…am faint mae'n costio. Galle fod [cost y parti ffarwelio] gymaint â beth ma rhywun yn ennill mewn wythnos." (Disgybl, 16 oed)

# Prif argymhellion

## Ar gyfer ysgolion

1. Cynnal asesiad o'r flwyddyn ysgol a nodi faint o wahanol ddiwrnodau elusennol, codi arian, di-wisg ysgol a gwisgo i fyny rydych chi'n eu rhedeg ar hyn o bryd, ac ar ba adegau o'r flwyddyn. Oes modd cwtogi neu eu cynllunio gyda mwy o amser rhyngddynt, gan hefyd roi mwy o rybudd i deuluoedd. Ystyriwch sut y gallwch sicrhau bod pob disgybl y medru cymryd rhan.

2. Ymgynghorwch â'r gymuned ysgol a chynnwys pob barn wrth gynllunio eich calendr digwyddiadau Holwch disgyblion a rhieni ynghylch costau cyfredol a pha mor fforddiadwy yw'r gweithgareddau hwyliog, ac o ganlyniad felly dysgu sut y gallwch gynllunio digwyddiadau sy'n ffitio'r gymuned gyfan ac yn adlewyrchu'r achlysuron arbennig a'r achosion sy'n bwysig iddynt.

3. Sicrhewch eich bod yn ystyried a ydynt yn gynhwysol a fforddiadwy wrth gynllunio gweithgareddau difyr yn yr ysgol. Mabwysiadu agwedd ysgol gyfan yn hytrach na thargedu plant o gartrefi inwcm isel. Er enghraifft, yn lle cynnig siwmperi Nadolig sbâr neu wisgoedd i rai plant, meddyliwch sut y gall costau gwisgo i fyny cael eu lleihau i bob teulu – mae rhai ysgolion yn darparu crysau-t fel bo pawb yn medru eu haddurno.

Ceir canllawiau mwy cynhwysfawr ar gyfer ysgolion, cymdeithasau rhieni ac elusennau ar dudalennau 31 i 36.

## Ar gyfer cymdeithasau rhieni

1. Wrth gynllunio a rhedeg gweithgareddau a digwyddiadau daliwch mewn cof pa mor fforddiadwy ydynt a gwiriwch a ellir ailystyried neu leihau costau. Gallwch siapio eich cymdeithas rieni fel ei bod yn gweithio dros bob teulu drwy fabwysiadu dull cymunedol ysgol gyfan o godi arian a rhedeg digwyddiadau. Er enghraifft, gwnewch yn siŵr bod pawb yn gallu mynychu disgo'r ysgol a gofyn i rieni am roddion gwirfoddol i dalu am docynnau ymlaen llaw.

2. Byddwch yn ymwybodol o amseru digwyddiadau er mwyn osgoi gofyn am sawl peth ar y tro. Wrth gynllunio ac amserlennu digwyddiadau, sicrhewch eich bod yn ymwybodol o geisiadau eraill am gyfraniadau ariannol, gan gynnwys tripiau a digwyddiadau eraill. Mae teuluoedd hefyd yn gwerthfawrogi cael gymaint o rybudd ymlaen llaw â phosibl ar gyfer unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd.

## Ar gyfer elusennau

1. Tynnu sylw o fewn y sefydliad at yr heriau y gall codi arian mewn ysgolion eu cyflwyno i ddisgyblion a theuluoedd ar incwm isel a sicrhau bod hyn yn llywio ac yn rhan weithredol o'r ystyriaethau sy'n cael eu gwneud wrth gynllunio gweithgareddau codi arian mewn ysgolion.

2. Ystyried sut y gall unrhyw ddeunyddiau, gwybodaeth a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â chodi arian mewn ysgolion ddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r pwysau ariannol y gallai plant a theuluoedd fod yn eu hwynebu. Er enghraifft, canolbwyntio'n bennaf ar sut y gall disgyblion ymgysylltu â'r achos, a chyflwyno amrywiaeth o ffyrdd i gefnogi'r achos gyda chodi arian yn un o amryw opsiwn.

# Codi arian yn yr ysgol

Mae diwrnodau elusennol a chodi arian yn fodd pwysig i ddysgu plant am achosion cymdeithasol ac yn helpu codi arian tuag at faterion sy'n effeithio ar bobl. Mae ysgolion yn aml yn codi arian ar gyfer elusennau lleol, yn ogystal â chymryd rhan mewn diwrnodau codi arian cenedlaethol adnabyddus. Gall y dyddiau hyn helpu i feithrin tosturi tuag at eraill a chodi ymwybyddiaeth o'r byd o amgylch y disgyblion – gan gynnwys eu cymunedau lleol. Gall ddiwrnodau a digwyddiadau codi arian hefyd cael eu trefnu gan gymdeithasau rhieni (CRhA) er mwyn codi arian pwysig ar gyfer yr ysgol a chynyddu cyfleoedd i ddisgyblion. Mae llawer o blant yn edrych ymlaen at y diwrnodau hyn ac yn mwynhau cymryd rhan.

"[Roedd dod â bwyd i mewn ar gyfer Diolchgarwch] yn ffordd dda o helpu pobl." (Disgybl, 16 oed)

## Ceisiadau am arian parod a rhoddion

Serch hynny, mae disgyblion a theuluoedd wedi dweud wrthym fod incwm aelwydydd yn effeithio ar sut mae llawer o blant yn profi'r dyddiau hyn, yn aml gyda chanlyniadau negyddol i blant mewn teuluoedd tlotach.

I gychwyn, mae'r dyddiau hyn yn golygu ceisiadau uniongyrchol rheolaidd am arian parod. Er bod llawer o ysgolion yn defnyddio systemau sy'n osgoi tynnu sylw ac yn galluogi rhieni i dalu arlein am bethau fel prydau ysgol, tripiau a chlybiau, pan fydd digwyddiadau elusennol a gweithgareddau codi arian yn y cwestiwn, mae'n aml yn ofynnol i blant a phobl ifanc ddod ac arian parod i fewn.
Mae plant yn adrodd bod rhoddion elusennol a diwrnodau chodi arian yn aml yn golygu casglu arian o flaen y dosbarth gan athrawon neu ddisgyblion eraill, gan ei gwneud yn amlwg pwy allan o'u cyfoedion sydd wedi gwneud rhodd.

"Chi yn gwybod os yw rhywun heb arian. Ma' pawb yn codi ar eu traed a ma'r athro yn dod rownd i gasglu'r arian a wedyn ma pawb yn eistedd" (Disgybl, 10 oed)

"Fi yn sylwi weithiau mai'r un pobl sydd ddim yn talu bob tro." (Disgybl, 11 oed)

"Ma cofrestr i gael o bawb sy' wedi dod ag arian mewn" (Disgybl, 13 oed)

# Codi arian yn yr ysgol

## Prynu eitemau a marsiandïaeth

Yn ogystal â bod yn amlwg nad yw disgyblion yn gallu gwneud rhodd, mae plant wedi dweud wrthym eu bod yn ymwybodol o'u ffrindiau'n colli allan ar rai gweithgareddau codi arian, megis gwerthu nwyddau wedi pobi a phrynu cynnyrch fel pabi a thrwynau coch, oherwydd bod angen arian er mwyn iddynt gymryd rhan.

"Sdim rhaid prynu un [trwyn coch], ond fi'n teimlo'n drist dros y pobl sy'n methu fforddio un" (Disgybl, 9 oed)

"Oedd rhai pobl yn crio achos oedd dim un gyda nhw. O nhw'n eistedd yno'n edrych ar y cacennau. O nhw'n edrych yn drist" (Disgybl, 10 oed)

"Mae rhai yn ffaelu cael rhai [pabi coch] ac mae eraill yn gallu. Galle fod rhai pobl yn teimlo mas ohoni" (Disgybl ysgol gynradd)

"'Ma blwyddyn 6 yn gwneud diwrnod teisen. Ma rhai o blant gyda lot o frodyr a chwiorydd ac mae 50c am deisen yn lot os oes lot o blant mewn teulu" (Digybl ysgol gynradd)

## Amseru a faint o rybudd a roddir

Mae plant a theuluoedd yn aml wedi gwneud sylwadau ar nifer y diwrnodau neu weithgareddau codi arian. Mae nhw weithiau yn dweud bod rhai o'r digwyddiadau hyn yn rhy agos at eu gilydd, a bod dim digon o rybudd yn cael ei rhoi am yr hyn sydd ar fin digwydd. Gall hyn fod yn straen i deuluoedd nad ydynt am i'w plant golli allan ond nad ydynt chwaith yn gallu bodloni'r ceisiadau parhaus. Nododd rhieni hefyd bod rhai adegau o'r flwyddyn yn gallu bod yn fwy anodd, fel yr wythnosau cyn y Nadolig.

"Weithiau mae'n teimlo fel bod nhw'n gofyn am gryn dipyn o arian. Alla i ddim ei wneud os yw'n rhy aml. Mae'n rhaid i ni dalu am bethau pwysicach yn gyntaf." (Rhiant)

"Dydw i ddim eisiau i fy mhlentyn deimlo ei bod hi'n colli allan ar unrhyw beth, ond rwy'n gwybod bod llawer o'r 'gofynion' yn ddiangen." (Rhiant)

"Rwy'n teimlo bach dan straen ac yn bryderus gyda'r llythyrau cyson sy'n dod o'r ysgol yn y cyfnod cyn y Nadolig." (Rhiant)

# Codi arian yn yr ysgol

## Diffyg dealltwriaewth o amgylchiadau teuluol

Ar ben hynny, mae rhai o'r teuluoedd y gofynnir iddynt roi a chodi arian ar gyfer elusennau a'r ysgol yn derbyn cymorth elusennol eu hunain, megis defnyddio banciau bwyd a dillad ysgol. **Mae tlodi plant yn effeithio ar fwy nag un o bob pedwar plentyn ledled y DU,** ac mae llawer mwy o deuluoedd â phlant yn ei chael hi'n anodd ymdopi oherwydd costau byw cynyddol a chwtogi diweddar i'r system nawdd cymdeithasol.

Er bod hyrwyddo achosion elusennol yn bwysig, **mae'n hanfodol bod ysgolion ac elusennau yn osgoi rhoi baich ar deuluoedd sydd eisoes yn cael trafferthion drwy ceisiadau codi arian** a allai gyfrannu ymhellach at eu caledi. Rydym yn gwybod y gall hyn hefyd arwain at deuluoedd yn teimlo nad oes gan eu hysgol ddealltwriaeth am yr heriau y maent yn eu hwynebu neu am realiti byw ar incwm isel – a gall hyn effeithio ar sut mae teuluoedd yn dewis ymgysylltu â'u hysgol.

"Does dim llawer o ymwybyddiaeth o sut beth yw byw ar incwm tynn iawn." (Rhiant)

"Roeddwn yn teimlo nad oedd ganddynt ddiddordeb a'n bod ar ein pen ein hunain. Os yw'n swm bach o arian, af i ddim ati i'w godi gan nad ydynt fel petaent yn deall." (Rhiant)

"Er gwaethaf codi ymwybyddiaeth o gost y diwrnod ysgol, gofynnir yn gyson i ni am arian ar gyfer lluniau, cardiau Nadolig ac anrhegion, elusennau ac ati ac mae llawer o rieni wedyn yn teimlo rheidrwydd i roi er mwyn sicrhau nad yw eu plentyn yn cael ei hepgor." (Rhiant)

Yn ystod y flwyddyn ysgol, yn aml ceir amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian at ddibenion gwahanol. Er enghraifft, mae rhai gweithgareddau codi arian yn anelu at gefnogi elusen tra bod eraill yn anelu at godi arian i'r ysgol ei hun.

Soniodd rhai rhieni yn benodol am geisiadau am arian sy'n dod o'r CRhA, y cyngor rhieni, neu grwpiau rhieni eraill. Mae'r cyrff hyn fel arfer yn cydlynu amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau gyda'r nod o godi arian fel y gall yr ysgol gynnig cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion – er enghraifft, cymorthdaliadau i dripiau ysgol a chlybiau ysgol a chynnal disgos.
Serch hynny, dywedodd rhieni wrthym eu bod weithiau yn teimlo o dan bwysau i gyfrannu at y gweithgareddau hyn ac er eu bod yn gefnogol, gallai hyn greu dipyn o her. Dywedodd rhieni hefyd, er y gofynnir iddynt yn aml am roddion gwirfoddol, nad oedd bob tro yn teimlo'n wirfoddol oherwydd y ffordd yr oedd gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu.

"Nid pawb sy'n ddi-hid am yr hyn mae pethau'n costio jest achos bod nhw ar gyfer ysgol y plant" (Rhiant)



# Codi arian yn yr ysgol

## Bod yn ymwybodol o dlodi

Ar y llaw arall, mae ein hymchwil yn dangos bod teuluoedd wir yn sylwi pan fydd ysgolion yn gwneud pethau i leihau'r pwysau a dangos dealltwriaeth o'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae rhieni'n gwerthfawrogi pan fydd ysgolion yn ymwybodol o dlodi a soniwyd wrthym fod hyn yn aml yn cael ei ddangos drwy gyfathrebu, polisïau ac arferion yr ysgol.

"Hyd yma 'does dim angen [help i dalu am gostau ysgol] arnai gan fod yr ysgol yn ymwybodol iawn o galedi yn y gymuned ac yn gwneud popeth o fewn ei gallu i wneud e'n haws i'r rhai sy'n llai ffodus heb iddi fod yn amlwg i eraill. Fel athrawon/pennaeth ma nhw'n agos-atoch. os byddai'n mynd i drafferthion (a gobeithio ddim), bydde dim problem 'da fi fynd atyn nhw am gymorth i'm plentyn." (Rhiant)

"Mae cael plant i gymryd rhan yng ngwaith elusennau yn ifanc yn ffordd wych o ddangos iddynt sut mae'r sefydliadau hyn yn gwneud gwahaniaeth yn y byd, a sut y gallant fod yn rhan ohonynt. Gyda phlant oedran ysgol, y peth yw i gynnwys pob plentyn mewn rhyw fodd ac edrych am gyfleoedd i greu ffyrdd newydd a hwyliog o wneud rhoi a chodi arian yn fwy cynhwysol. Mae'n werth cymryd amser i ymchwilio'r ysgol a sgwrsio gydag athrawon am y disgyblion er mwyn adnabod y mathau o weithgareddau a fyddai'n gweithio orau i ddangos iddynt sut y gallant gymryd rhan mewn ffyrdd sydd ddim yn gysylltiedig ag arian."

Charlotte Sherman, Sefydliad Siartredig Codi Arian

Chartered Institute of Fundraising Wales
Sefydliad Siartredig Codi Arian Cymru

## Syniadau a myfyrdodau gan ddisgyblion a rhieni

Siaradodd rhai disgyblion yn bositif am systemau rhodd lle gellir daflu arian mewn bwced, ac roedden nhw hefyd yn teimlo y dylai mwy o bethau fod am ddim yn yr ysgol.

"Ma' fe'n eitha di-enw [yn fy ysgol i]. 'Sdim ishe bod neb yn gwybod os wyt ti wedi neu heb [roi]". (Disgybl, 12 oed).

"Doedd dim ots os na ddaethoch chi ag arian mewn achos wnaethon ni gasglu arian gyda bwced" (Disgybl, 10 oed)

"Rwy'n credu y dylen nhw gwneud pethau yn rhad ac am ddim" (Disgybl ysgol gynradd)

"Does dim pwysau i roi. Maen nhw'n anfon e-gylchlythyrau nawr gyda dolen gyswllt *JustGiving*. Rwy'n credu y dylen nhw gadw hynny i fynd ar ôl Covid." (Rhiant)

# Codi arian yn yr ysgol
## Beth sy’n gweithio’n dda

### Ffordd unigryw i ddathlu Diwrnod y Cofio: dull newydd un ysgol

Newidiodd un ysgol ei hagwedd at ddiwrnodau elusennol a chodi arian yn ddiweddar. Eleni, doedd dim disgwyl prynu pabïs coch ac yn hytrach dywedodd y disgyblion wrthym eu bod yn ysgrifennu cerddi ac yn gwneud croesau gyda’r pabis, a bod popeth yn cael ei ddarparu gan yr ysgol. Wrth gasglu rhoddion ar gyfer diwrnodau elusennol disgrifiodd disgyblion a staff sut y rhoddwyd arian mewn amlenni:

“Wnaethom ni ei addasu ychydig, rhoi eu rhodd mewn amlen, nid ydym yn dweud bod rhaid iddo fod yn bunt, dim ond rhodd, does dim angen hyd yn oed ddod â rhodd, gaiff pawb ymuno beth bynnag.” (Aelod o staff)

Er mai cychwyn fel newid diogelu rhag Covid a wnaeth, un o’r buddion anfwriadol o’r newid ydy: “mae neb y  gwybod faint sydd gyda chi." (Disgybl, 10 oed)


“Dwi’n credu fod hynny wedi helpu lot achos does dim y pwysau hwnnw ynghylch faint o arian y daw pobl gyda nhw” (Aelod o staff)

# Diwrnodau gwisgo fyny a dim gwisg ysgol

Gall gwisgo fyny ar gyfer gwahanol ddyddiau thema fod yn ffordd hwyliog o ddathlu dysgu ac ychwanegu amrywiaeth at y calendr ysgol. Ynghyd â diwrnodau di-wisg, rydym yn gwybod bod llawer o blant yn edrych ymlaen at ddiwrnodau gwisgo i fyny ac yn mwynhau cynllunio gwisgoedd.

## Cael y giwsg iawn

Fodd bynnag, yn ogystal â'r ceisiadau uniongyrchol am arian ar y dyddiau hyn, mae nifer o oblygiadau ariannol hefyd yn gysylltiedig â chymryd rhan. Mae'n gyffredin bod diwrnodau gwisgo i fyny a diwrnodau di-wisg yn gallu creu mwy o bryderon a phwysau cost i rai disgyblion a'u rhieni. Ar ddiwrnodau dim gwisg ysgol, dywedodd disgyblion wrthym bod gofyn yn aml iddynt wisgo eitemau arbennig ar gyfer achlysuron gwahanol e.e. smotiau ar gyfer Plant Mewn Angen, dillad coch am Ddiwrnod Trwyn Coch, gwisgoedd cymeriadau ar gyfer Diwrnod y Llyfr a siwmper arbennig ar gyfer Diwrnod Siwmper Nadolig.



Nododd y disgyblion y gall fod yn anodd dod o hyd i ddillad ar gyfer yr achlysur a bu'n rhaid i rai brynu gwisgoedd penodol ar gyfer y diwrnod. Roedd y disgyblion hefyd yn ymwybodol o blant eraill nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn yr achlysuron hyn. Sylwasant eu bod yn sefyll allan, ac yn aml yn cael eu gadael allan, am y rheswm hwn. Roedd rhieni hefyd yn rhannu enghreifftiau o ysgolion a oedd yn cynnal nifer o ddiwrnodau gwisgoedd gwahanol mewn un hanner tymor ac wedi siarad am yr ychydig iawn o rybudd a roddir i baratoi gwisgoedd, a all fod yn straen i bob rhiant ond yn enwedig y rhai heb lawer o arian.

"Ydw ['Rwyf wedi cael trafferth gyda chostau], bu dyddiau gwisgo i fyny lle bu gorfod prynu gwahanol eitemau yn gost ddiangen, yn enwedig pan fod mwy nag un plentyn gyda chi" (Rhiant)

"Os nad ydych chi'n talu ar didwrnod *mufti,* mae'n rhaid i chi newid i mewn i wisg sbâr." (Disgybl, 11 oed)

"Doedd dim gwisg gen i, felly ges i ddim y cyfle i gymryd rhan ond gallwn i fynd gyda'r dosbarth" (Disgybl, 9 oed)

# Diwrnodau gwisgo fyny a dim gwisg ysgol

## Embaras a chywilydd

Awgrymodd y plant hefyd y gall diwrnodau gwisgo i fyny a diwrnodau di-wisg arwain at bobl yn pigo ar eraill a disgyblion yn theimlo'n chwithig am nad ydynt yn gallu fforddio'r dillad cywir. Tynnodd rhai disgyblion sylw at y ffaith y gall diwrnodau di-wisg weithiau fod yn gyfle i blant dangos eu hun ac mae hyn yn amlygu anghydraddoldebau rhwng disgyblion.

"Maen nhw'n siarad y tu ôl i'ch cefn [am eich dillad] ac yn syllu arnoch chi." (Disgybl, 12 oed)

"[Efallai y bydd eich ffrindiau'n dweud] dylech fod wedi gwisgo i fyny fel rhywbeth arall." (Disgybl, 8 oed)

"Efallai y bydd rhai pobl yn teimlo cywilydd am eu gwisg neu efallai nad oes ganddynt ddigon o arian." (Disgtybl, 9 oed)

"Maen nhw'n teimlo'n rhwystredig a dydyn nhw ddim eisiau siarad gweddill y dydd... maen nhw'n teimlo'n anghyfforddus."(Disgybl, 10 oed)

"Mae rhai pobl yn gofyn pam nad oes gennych siwmper Nadolig." (Disgtybl,10 oed)

## Yr effaith ar bresenoldeb

Yn anffodus, mae ein tystiolaeth yn dangos bod presenoldeb yn cael ei effeithio mewn rhai ysgolion ar ddiwrnodau dim gwisg ysgol a dyddiau gwisgo i fyny, ac mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu gan dystiolaeth mewn mannau eraill.[1] Mae hyn yn tanlinellu arwyddocâd y gost a'r pwysedd cymdeithasol ar blant. Er y byddai'r rhan fwyaf yn dychmygu bod y dyddiau hyn yn ffynhonnell mwynhad, mewn rhai achosion maent mewn gwirionedd yn niweidio addysg disgyblion drwy fwy o absenoldebau.

"Bydd plant yn cymryd y diwrnod i ffwrdd ar ddiwrnodau lle mae angen gwisgo gwisgoedd Dydd Gŵyl Dewi neu ddyddiau eraill pan nad oes angen gwisg ysgol." (Aelod o staff)

[1] Prosiect data agored i ysgolion Presenoldeb Diwrnod Siwmper Nadolig , ASCL, 2018

# Diwrnodau gwisgo fyny a dim gwisg ysgol

## Syniadau a myfyrdodau gan ddisgyblion

"Buaswn i'n newid fel yr holl ddyddiau di-wisg oherwydd bod pobl yn cael eu holi ai dyna'r unig ddillad sydd gyda nhw…. Mae'n gwneud iddyn nhw deimlo'n drist ac yn siomedig." (Disgybl, 10 oed)

"O ni'n arfer sefyll i fyny a dangos ein gwisgoedd [ar gyfer Diwrnod y Llyfr]… nawr ['da ni'n addurno tatws yn lle] mae'n well, achos fyddwn ni ddim yn defnyddio plastig sy'n dinistrio ein byd." (Disgybl, 8 oed)

"Gallwn ni ddylunio crys-t neu siwmper yn yr ysgol yn lle [diwrnodau gwisgo i fyny]?" (Disgybl ysgol gynradd)

"Efallai [yn lle prynu siwmperi Nadolig] cael siwmper plaen arferol, un gwyn, gallech chi wneud pethau crefftus, gallech chi addurno eich siwmper eich hun, hen grys-t nad ydych yn ei ddefnyddio mwyach." (Disgybl ysgol gynradd)

"Gallen ni gael stondin a gall pobl ddod â hen siwmperi Nadolig i mewn. Byddent yn fawr ac yn fach fel y gallai pobl ddod a dweud bod angen un arnynt. Rwy'n credu ein bod wedi gwneud hynny o'r blaen." (Disgybl ysgol gynradd)

"Yn lle bod pawb yn prynu siwmper i'w gwisgo, galle ni wneud cardiau Nadolig." (Disgybl ysgol gynradd)

### Gweledigaeth ysgol: monitro diwrnodau di-wisg ysgol

Gwnaeth un ysgol fonitro presenoldeb yn anffurfiol yn ystod diwrnodau di-wisg ysgol gan nodi y nifer o ddisgyblion, yn bennaf disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol, nad oeddent yn mynychu'r ysgol ar y dyddiau hyn. Ers hynny maent wedi newid y dyddiau hyn i 'wisgo fel y mynnwch'. Dywedodd y disgyblion fod hyn yn dda gan y gallent **"gwisgo trowsus ysgol ac unrhyw top o adre ma nhw'n licio" (Disgybl, 9 oed).** Nododd uwch reolwyr fod presenoldeb wedi gwella ers cyflwyno hyn.

# Diwrnodau gwisgo fyny a dim gwisg ysgol
## Beth sy'n gweithio'n dda

### Diwrnod y Llyfr heb y pwysau cost ar deuluoedd: Ymagwedd greadigol Ysgol Gynradd Downfield

Sefydlodd Ysgol Gynradd Downfield yn Dundee ddwy babell ddarllen yn ystod yr wythnos yn arwain at Ddiwrnod y Llyfr, gyda llawer o deitlau cyffrous i blant eu darllen yn ystod amser chwarae. Y tu mewn i'r pebyll roedd digon o le i gael yn glyd ar glustogau a chymdeithasu gyda ffrindiau tra bod rhestr o westeion a wahoddwyd yn arbennig (rhieni!) yn cynnal sesiynau darllen arbennig. Ar ddiwedd yr wythnos, trefnodd yr ysgol gyfnewidfa lyfrau, a oedd yn agored i bawb. Nid oedd yn rhaid i ddisgyblion ddod â llyfr i'w gyfnewid – roedd yn agored i bawb ddod draw i ddod o hyd i rywbeth newydd i'w fwynhau.


© CPAG Scotland


© CPAG Scotland


© CPAG Scotland

# Digwyddiadau arbennig a dathliadau

Mae'r flwyddyn ysgol yn llawn amrywiaeth o weithgareddau cymunedol, dathliadau ffydd ac achlysuron arbennig sy'n aml yn brofiadau cofiadwy, cadarnhaol i ddisgyblion, gan ganiatáu iddynt dreulio amser gyda ffrindiau, dysgu am bethau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog.

"Mae'n dda iawn [y disgo Calan Gaeaf], chi'n cael bwyd a diod ac mae'n lot o hwyl" (Disgybl, 9oed)

Serch hynny, mae llawer o'r achlysuron a'r dathliadau hyn yn rhoi pwysau ar deuluoedd i gyflenwi bwyd, deunyddiau a gwario arian er mwyn i'w plant gymryd rhan lawn.

## Digwyddiadau tymhorol a gweithgareddau diwylliannol

Mae plant wedi dweud wrthym bod gofyn iddynt ddod â gwisgoedd i mewn ar gyfer dramâu'r Geni a gwisgoedd traddodiadol ar gyfer Diwali; deunyddiau ar gyfer addurno wyau a hetiau Pasg; pwmpenni i'w cerfio ar gyfer Calan Gaeaf; a bwyd ar gyfer achlysuron fel partïon Eid a'r Nadolig; yn ogystal â bwyd ar gyfer dathliadau diwedd blwyddyn. Er bod dathlu a dysgu am wahanol ddiwylliannau a chrefyddau yn rhan bwysig o addysg, gall y gweithgareddau hyn ddod â llawer o gostau cudd a gallant fod yn arbennig o anodd os ydynt yn digwydd yn agos at ei gilydd.

"Os nad yw'r stwff gyda chi adre [pethau gwneud het y Pasg], 'dych chi ddim yn gallu gwneud e." (Disgybl, 10 oed)

"s'dim byd am ddim. Os i chi ffaelu talu am y peth arbennig, chi ddim yn cael mynd." (Disgybl, 6 oed)

"Ma' parti Nadolig, gwisgoedd cyngerdd Nadolig, tocynnau ar gyfer cyngherddau Nadolig, ffair Nadolig, rafflau, anrhegion athrawon, rhoddion i hamperi, diwrnod siwmper Nadolig... mae'r rhestr yn mynd ymlaen ac ymlaen!" (Rhiant)

"Mae cyngherddau Nadolig allan o oriau ysgol yn golygu bo raid i fi feddwl am drafnidiaeth, amser bant o'r gwaith. Dwi wastad wedi teimlo'n rhwystredig gyda'r disgwyliad sydd o'r gallu i fforddio pethau." (Rhiant)

"Maen nhw'n rhoi neges ar y tudalen Facebook yn awgrymu bod plant yn gwisgo dillad Nadolig ar gyfer y ddrama ac er iddyn nhw ddweud na ddylen ni fynd allan a phrynu sut alla i ddweud wrth fy mhlant na allaf ei fforddio?" (Rhiant)

# Digwyddiadau arbennig a dathliadau

## Ffeiriau a disgos

Mae disgyblion hefyd wedi rhannu eu profiadau o ffeiriau ysgol, gyda rhai'n dweud nad ydynt wedi gallu mynychu oherwydd y costau niferus. Mae'r rhain yn cynnwys prynu lluniaeth, cymryd rhan mewn gemau neu weithgareddau codi arian, a phrynu teganau ac eitemau o wahanol stondinau. Siaradodd y plant am y ffordd yr oedd yn gwneud iddynt deimlo'n wahanol a'u gadael allan pan nad oeddent yn gallu mynychu'r digwyddiadau hyn, gan gymharu eu profiadau'n aml â'u cyfoedion mwy cefnog.

“Mae fe bach o boen achos pan wyt ti’n gweld dy ffrindiau yn dod mas ma fe wir yn tynnu arnat. Ma fe’n teimlo’n annifyr” (Disgybl, 10 oed)

“Sai’n credu bod arian gyda nhw [felly awn nhw ddim i’r ffair]” (Disgybl, 9 oed)

"Oedd e mor anheg. Oedd Mam ddim yn fodlon bo fi’n dewis beth o ni moen achos oedd dim digon o arian gyda hi yn ei phoced”. (Disgybl, 7 oed)

Canfuwyd hefyd bod disgos ysgol yn destun pryder gyda phlant yn disgrifio bod angen arian arnynt ar ben y tocyn mynediad i brynu losin a diodydd, a bod ganddynt wisg neu rywbeth addas i'w wisgo.

Daw'r dyfyniadau hyn o drafodaeth grŵp rhwng disgyblion:

"Roedden ni'n dweud nad oedd tua £3 mor ddrwg â hynny i'r disgo" (Disgybl ysgol uwchradd); “Ond i Mam [enw’r disgybl] bydde fe’n £9 achos ma dau frawd iau gyda fe” (Disgybl ysgol gynradd)



# Digwyddiadau arbennig a dathliadau

## Prynu llyfrau a theganau

Soniwyd hefyd bod ffeiriau llyfrau a theganau yn gynyddol ddrud. Mewn un ysgol, dywedodd disgyblion wrthym, er bod pawb yn mynychu'r ffair lyfrau, bod y rhai heb arian ond yn cael benthyg llyfr am gipolwg cyn ei ddychwelyd tra bod pawb arall yn cael mynd â'r hyn y maent wedi'i brynu adref.

"Mae rhai pobl yn prynu ategolion, rwberi, posteri, marciau llyfrau, prennau mesur... Tra bod eraill yn methu prynu o gwbl. Ma nhw'n cael pori drwy lyfr ond yn methu ei gadw" (Disgybl 11)

"Chi'n benthyg llyfr ac yn eistedd ac yn ei ddarllen yn y gornel ac yn ei ddychwelyd ar y diwedd. Byddai'n bendant yn drist i mi oherwydd rwy'n caru llyfrau." (Disgybl, 8 oed)

## Syniadau a myfyrdodau gan ddisgyblion

"Dwi'n meddwl yn lle talu am bethau yn y ffair, fe allen ni dalu rhywbeth o flaen llaw wedyn peidio talu yno." (Disgybl, 10 oed)

"Nid yw'n costio unrhyw beth i fynd i mewn [i ddisgo'r ysgol]. Mae'r gymdeithas rieni yn gwneud yn siŵr ei fod yn rhad ac am ddim." (Disgybl, 10 oed)

"Wedon ni y dyle ni gael disgownt teuluol [ar gyfer partïon a disgos]." (Disgybl ysgol gynradd).

"Roedden ni'n siarad am y disgo Calan Gaeaf ac am sut efallai pe bai gennym chwaer neu frawd neu gefnder bach, fe allech chi roi'r gwisgoedd i'r ysgol. Gallai'r rhai bach a allai gael eu gadael allan fod â rhai sbâr rhag ofn." (Disgybl ysgol gynradd)


"Mae dad rhywun yn gwneud y gerddoriaeth ac yn dod â pheiriant mwg." (Disgybl, 11 oed)

# Digwyddiadau arbennig a dathliadau
## Beth sy'n gweithio'n dda

### Cael gwared ar gostau mynediad a darparu chwaraeon am ddim i bawb: un ysgol yn mynd ati i weddnewid ei ffair ysgol

Mae'r ysgol yn cynnal ffair wanwyn flynyddol i godi arian i'r ysgol. Nid oes ganddo ffi mynediad i ddisgyblion a theuluoedd, ac mae yna amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys "stondinau am 10c, pêl-droed a chwaraeon am ddim yn y digwyddiad." (Uwch reolwr ysgol)

Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r pwysau y gall digwyddiadau elusennol eu cynrychioli ar gyfer teuluoedd, felly mae'n ceisio cadw golwg ar faint sy'n cael eu trefnu yn yr ysgol: "Rydym yn ymwybodol iawn ac yn annog pawb i beidio â threfnu unrhyw beth drud, ac rydym yn cyfyngu rhoddion ac yn cyfyngu ar nifer y diwrnodau thema gwisg neu'n mynd am rywbeth syml fel nad yw pobl yn teimlo dan bwysau i brynu gwisgoedd arbennig ac ati." (Aelod o staff)


# Digwyddiadau arbennig a dathliadau

## Pen-blwyddi a gweithgareddau Nadolig

Mae dathlu'r Nadolig a phen-blwyddi yn gallu bod yn gyfnod cyffrous yn yr ysgol i blant. Rydym yn gwybod bod llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r dathliadau, a'r cyfle i rannu rhoddion a danteithion gydag athrawon a chyfoedion.

"Mae'n braf dod â chacen i mewn ar gyfer eich ffrinidau [ar eich pen-blwydd]." (Disgybl, 10 oed)

Serch hynny, er bod yr achlysuron yn aml yn brofiadau hwyliog i lawer, daeth yn amlwg bod plant oedd yn byw mewn cartrefi incwm isel weithiau yn sefyll allan oherwydd pwysedd costau a'r ffyrdd y dathlwyd yr achlysuron hyn. Er enghraifft, soniodd y plant am y pwysau i ddod â losin neu gacen i mewn ar gyfer penblwyddi a rhannu gyda'r dosbarth pa anrhegion yr oeddent wedi'u derbyn. Adeg y Nadolig a diwedd y flwyddyn ysgol, er nad yw llawer o athrawon yn disgwyl anrhegion, dywedodd disgyblion a theuluoedd eu bod yn teimlo dan bwysau neu'n euog wrth weld eraill yn cyflwyno anrhegion – yn enwedig pan roddwyd y rhoddion yn gyhoeddus i'r athro neu athrawes.

"Byddwn i'n teimlo'n wael os na allen i ddod â chacen i mewn ar fy mhen-blwydd, oherwydd, sai'n gwybod, mae'n gwneud i mi deimlo'n gyfoethog! Oherwydd byddai pobl yn hoffi fi. Maen nhw'n hoffi fi beth bynnag ond chi'n gwybod beth dwi'n feddwl." (Disgybl Ysgol Gynradd)

"Mae pawb yn heidio o gwmpas yr athrawon gyda'i anrhegion. Y rhai yn y cefn yw'r rhai heb anrheg" (Disgybl, 6 oed)

"Mae ein hysgol nawr yn gwneud siop lle rydych chi'n talu i ganiatáu i'ch plant brynu anrheg i chi. Mae'n syniad hyfryd, ond yn costio ffortiwn! Yn enwedig pan fydd gennych fwy nag un." (Rhiant)

"Y peth mwyaf y gallech ei ddweud yw fel cost anysgrifenedig, yw diwedd blwyddyn academaidd ac anrhegion Nadolig i athrawon a [chynorthwywyr dysgu]. Er y byddai ysgolion yn dweud nad ydyn nhw'n gofyn am anrhegion, mae pwysau enfawr yn gymdeithasol ar blant i ddod ag anrhegion i mewn. Does neb am anfon eu plentyn i mewn ar y diwrnod olaf heb ddim pan fydd y plant i gyd yn cario anrheg ar y ffordd i'r ysgol. Rwy'n credu y gallai'r ysgol wneud mwy i atal hyn. Mae'n ddigon anodd prynu anrhegion Nadolig i'm teulu fy hun." (Rhiant)

# Digwyddiadau arbennig a dathliadau

## Penblwyddi a gweithgareddau Nadolig

Dywedodd disgyblion wrthym hefyd fod athrawon yn aml yn gofyn cwestiynau iddynt am eu profiad cartref pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig neu o amgylch eu penblwyddi. Er enghraifft, gofyn 'beth wnaethoch chi ei dderbyn dros y Nadolig?' neu 'beth ydych chi'n mynd i'w wneud ar gyfer eich pen-blwydd?' Mae cwestiynau o'r fath yn tynnu sylw at amgylchiadau ariannol plant ac weithiau'n gwneud iddynt deimlo'n chwithig.

"Mae'r athro yn gofyn 'Beth ydych chi wedi'i gael ar gyfer eich pen-blwydd/ Beth rydych chi wedi'i wneud y bore hwnnw/ Pa gacen sydd gennych chi/Beth ydych chi'n mynd i'w wneud ar gyfer eich pen-blwydd'?" (Disgybl)

## Syniadau a myfyrdodau gan ddisgyblion a rhieni

"Does dim pwysau i brynu anrhegion. Dydyn nhw [y staff] ddim yn sôn amdano, dim ond i ddweud 'Peidiwch ag anfon eich plentyn i mewn gydag anrhegion, dydyn ni ddim eisiau unrhyw un'. Ac maen nhw hefyd yn cuddio'n eithaf clyfar y tu ôl i bolisi [ysgol] [drwy ddweud] 'Dydyn ni ddim yn cael derbyn anrhegion gennych chi'." (Rhiant)

"Gallai [ysgol] roi het goch i ni. A gallech wneud eich het Nadolig eich hun; het Siôn Corn gyda phompomau a stwff gan ddefnyddio stwff a fyddai yn yr ysgol... gallech ei bersonoli a'i wisgo drwy'r dydd." (Disgybl ysgol gynradd)

"Llynedd oedd addurniadau Nadolig gyda ni wedi eu gwneud mas o glai a wi'n cofio gwneud ceirw, peli eira i fynd adref." (Disgybl ysgol gynradd)

"Mae'r ysgol fel arfer yn gefnogol iawn ac mae ganddyn nhw bethau fel cinio Nadolig am ddim." (Rhiant).

# Digwyddiadau arbennig a dathliadau
## Beth sy’n gweithio’n dda

### Arferion Nadolig cynhwysol: Ymagwedd Ysgol Gynradd Peel Park at ddathliadau'r Nadolig

Mae'r disgyblion yn mwynhau'r gwahanol ffyrdd y mae'r Nadolig yn cael ei ddathlu yn yr ysgol, gan gynnwys ymweliad Siôn Corn sy'n dosbarthu llyfr iam ddim i ddisgyblion, drwy garedigrwydd y CRhA. "Mae Siôn Corn yn rhoi llyfr i chi - mae pawb yn cael un ac mae'n braf cael anrheg." (Disgybl)

Bu'r disgyblion hefyd yn trafod sut roedden nhw'n gwneud cardiau Nadolig yn eu gwersi a bod "yr ysgol yn darparu popeth" (Disgybl). Mae'r arfer ysgol hwn yn sicrhau bod pawb yn derbyn cerdyn, heb unrhyw gost i deuluoedd.




Photo courtesy of the school

# Digwyddiadau arbennig a dathliadau
## Beth sy'n gweithio'n dda

### Ymarferion Nadolig Cynhwysol: Llythyr Ysgol Gynradd Pollokshields at rieni

*Neges gan Staff*

*Mae staff Ysgol Gynradd Pollokshields wedi penderfynu anfon y llythyr hwn atoch chi i gyd gyda'r hyn sy'n neges bwysig eleni yn ein barn ni. Bob blwyddyn rydym yn cael ein llethu gan garedigrwydd cymuned yr ysgol sy'n anfon anrhegion i mewn adeg y Nadolig. Fodd bynnag, eleni hoffem ofyn i chi ystyried peidio â gwneud hyn.*

*Rydym yn ymwybodol iawn y bydd llawer o deuluoedd yn cael eu hunain mewn sefyllfaoedd anodd yn ariannol oherwydd Covid-19 ac nid ydym am i'n hysgol fod yn faich ychwanegol. Nid ydym ychwaith am i deuluoedd fod yn ymweld â siopau'n ychwanegol i brynu anrhegion; byddai'n well gennym pe baech i gyd yn aros yn ddiogel.*

*Rydym yn deall yr angen y mae rhai ohonoch yn teimlo i anfon anrhegion i mewn ond gofynnwn i chi hefyd nodi'r effaith ar y plant sy'n gweld eu ffrindiau yn rhoi anrhegion i'r staff, pan nad ydynt hwy eu hunain yn gallu gwneud hynny.*

*Os hoffech ddiolch i athrawon a staff am eu gwaith caled eleni, byddwn yn dal i groesawu cardiau, trydariadau ac e-byst. Mae'r geiriau bach hyn o garedigrwydd yn cael effaith enfawr ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Diolch.*

# Dathliadau ffarwelio a chyfnodau phontio

"Mae'r diwrnod olaf yn un arbennig iawn achos bod ni'n gwylio ffilm ac maen nhw'n rhoi popcorn a *sgwash* i ni." (Disgybl, 9 oed)

Cynhelir rhai o'r dathliadau ysgol mwyaf arwyddocaol a chrand ar adegau pontio, wrth i blant symud i gyfnod newydd o addysg neu adael yr ysgol yn gyfan gwbl.

Yn draddodiadol, mae ysgolion yn nodi'r achlysuron hyn mewn amryw ffyrdd, fel cynnal disgos neu barti, mynd â disgyblion ar drip preswyl, darparu cofarwyddion neu gynnal gwasanaeth ymadawyr neu brom ffurfiol.

Er ein bod yn gwybod o siarad â phobl ifanc fod llawer yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddathlu cyfnodau pontio oherwydd eu bod yn cofnodi newid sylweddol yn eu bywydau, gall disgyblion mewn teuluoedd incwm isel yn aml gael eu hunain yn gorfod gwneud dewisiadau anodd ac maent yn aml mewn perygl o golli allan ar y profiadau pwysig hyn.



## Tripiau preswyl

Mae rhai ysgolion yn nodi pwyntiau pontio gyda thaith breswyl (mae hyn yn rhan allweddol o adael yr ysgol gynradd yn yr Alban). Yn aml mae llawer o gyffro yn y cyfnod cyn y tripiau hyn wrth i blant bachu ar y cyfle i gael profiadau newydd, meithrin perthnasoedd a chreu atgofion gyda'u ffrindiau.

"Mae'r daith [breswyl] yn beth mor fawr. Cymaint o atgofion." (Disgybl ysgol uwchradd)

Fodd bynnag, gall y teithiau hyn fod yn ddrud iawn i deuluoedd sy'n gorfod talu nid yn unig am gost y daith, ond hefyd am eitemau ychwanegol fel dillad awyr agored, offer a bagiau cysgu, yn ogystal â darparu arian poced.

“Gallech chi deimlo bod chi wedi'ch gadael allan os na allwch chi fynd. Nid pob teulu sy’n ennill gymaint â hynny." (Disgybl, 9 oed)



# Dathliadau ffarwelio a chyfnodau phontio

Gall y tripiau hyn roi rhieni mewn sefyllfa amhosibl, gan wybod pa mor bwysig ydynt i'w plant ond yn aml yn methu eu fforddio. Mewn un ysgol, rhannodd y disgyblion fod y daith breswyl yn costio £200 ac bod nifer o ddisgyblion yn methu mynd am y rheswm hwn. Nid oedd rhai disgyblion a theuluoedd yn ymwybodol ychwaith a oedd cymorth ariannol ar gael drwy'r ysgol.

"'Does dim arian poced gyda rhai pobl. Ma nhw'n treio cadw fe'n gyfrinach" (Disgtybl, 10 oed)

"Os na allwch chi dalu 'dych chi'n mynd i ddosbarth gwahanol [yn ystod yr wythnos breswyl]." (Disgybl, 11 oed)

"Nid eu bai nhw [ein rhieni] yw na allan nhw fforddio mynd." (Disgybl, 10 oed)

## Promiau ysgol

Mae promiau yn aml yn cael eu hamlygu fel rhywbeth costus i deuluoedd, y mae'n aml yn ofynnol iddynt dalu am docynnau, gwisgoedd, gwallt a cholur, ac weithiau cludiant, er mwyn i blant gymryd rhan. Hyd yn oed gyda'r costau hyn, dywedodd rhai disgyblion y buom yn siarad â hwy eu bod yn dal i fod eisiau'r profiad o fynychu prom neu barti, fel ffordd o gofnodi'r achlysur.

"Byddwn i'n mwynhau'r cyfle i wisgo i fyny, chi'n gwybod, rhoi dillad neis mlaen a gwneud e'n achlysur arbennig." (Disgybl, 15 oed)

Fodd bynnag, dywedodd llawer o ddisgyblion a oedd wedi mynychu promiau wrthym nad oedd y profiad yn werth y gost ac awgrymu y byddai'n well ganddynt ddathlu mewn ffyrdd eraill. Soniodd rhai disgyblion hefyd am y costau uchel a'r pwysedd cymdeithasol i wisgo dillad penodol, ond roeddent yn teimlo bod yn rhaid iddynt fynychu neu fel arall ni fyddent yn cael y cyfle i ddathlu o gwbl.

"Wnaeth dim digon o bobl talu [oedd â digon o arian] i fynd [i'r prom]. Rwy'n credu oedd e tua £30-£35." (Disgybl, 17 oed)

"Dyw'r ysgol ddim yn meddwl... faint mae [prom] yn ei gostio. Gallai fod yr hyn y mae rhywun yn ei ennill mewn wythnos." (Disgybl, 16 oed)

"Mae fel cystadleuaeth... pwy sy'n gallu gwario'r mwyaf ar wallt, blew amrant, lliw haul ffug a stwff." (Disgybl, 17 oed)

"Falle hales i tua £200 ar stwff ar gyfer y prom. Doedd e ddim yn werth chweil achos odd e ddim mor dda â hynny." (Disgybl, 16 oed)

"Beth am gynnal sioe, cyngerdd neu berfformiad ar gyfer yr ysgol." (Disgybl ysgol uwchradd)

Mewn trafodaethau, bu'r disgyblion yn archwilio amrywiaeth o ddewisiadau amgen i promiau gan gynnwys gwylio ffilmiau gyda'i gilydd, mynd ar deithiau cerdded a gwneud karaoke yn yr ysgol. Buont hefyd yn trafod syniadau ynghylch sut i wneud promiau yn llai costus drwy sybsideiddio rhannau o'r digwyddiad neu logi gwisgoedd i ddisgyblion.

# Dathliadau ffarwelio a chyfnodau phontio

## Gweledigaeth ysgol: cymhariaeth cost prom

Mewn un ysgol, costiodd y dathliad ffarwelio tua £245 i rai disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys £200 ar gyfer gwisgoedd prom, £25 am docynnau ac £20 am hwdi'r ysgol. Mewn ysgol gerllaw, gosododd y pennaeth uchafswm gwariant o £20 a datblygwyd fanc gynhwysfawr o ddillad prom yn y misoedd cyn y digwyddiad er mwyn sicrhau nad oedd yn rhaid i ddisgyblion brynu gwisgoedd costus

## Cofarwyddion ffarwelio

Yn aml yn ystod cyfnodau pontio y mae hefyd eitemau ar gael i'w prynu megis llyfrau ffarwelio a hwdis ysgol. Nid oedd rhai plant y buom yn siarad â hwy yn cael y pethau hyn i'w cadw am eu bod yn gost ychwanegol o fewn cyllidebau teuluol a oedd eisoes dan bwysau.

"Mae Llyfr ein blwyddyn a siwmperi dwi'n meddwl yn ddrud iawn. Dim ond un o'r rhain dwi fod i gael." (Disgybl, 15 oed)

"'Oedd gen i hwdi ymadawyr. Dwi'n ei hoffi'n fawr – Wnes i ei archebu braidd yn fawr achos o ni'n meddwl y gallwn i ddal i'w wisgo. Ond i fod yn onest, maen nhw'n diweddu mewn drôr ond dydyn nhw?" (Disgybl, 14 oed)

## Syniadau a myfyrdodau gan ddisgyblion

"Rwy'n credu mai'r peth gorau, hwyrach, fyddai cael pob disgybl o'r blynyddoedd eraill yn y neuadd ac yna cyflwyno blwyddyn 11 gyda'r pennaeth yn eu canmol am bopeth maen nhw wedi'i wneud ac yn rhoi gwobr neu rywbeth felly." (Disgybl, 15 oed)

"Gwylio ffilm gyda'n gilydd - cael dangosiad ffilm yn y neuadd neu yn y dosbarth." (Disgybl ysgol uwchradd)

"Gallen ni aros dros nos yn yr ysgol - naill ai ar y cae neu'n cysgu yn y neuadd." (Disgybl ysgol uwchradd)

# Dathliadau ffarwelio a phontio
## Beth sy’n gweithio’n dda

### Prosiect Prom: Ysgol Archbishop Holgate yn dathlu prom mewn modd gynhwysol

Mae'r ysgol yn deall y gallai'r costau sy'n gysylltiedig â'r prom fod yn rhwystr posibl i ddisgyblion tlotach. Mae staff yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy gynnig cymorth i bob disgybl drwy 'Prosiect Prom'. Mae staff wedi gofyn i fyfyrwyr chweched dosbarth roi eu ffrogiau a'u siwtiau i'w hailddefnyddio gan fyfyrwyr iau. Mae nifer fawr o wisgoedd wedi'u casglu, ac yn ystod yr wythnos buom yn ymweld â'r ysgol, roedd staff yn paratoi i gynnal digwyddiad lle gallai myfyrwyr ddod i ddewis gwisg, gyda phosteri'n cael eu harddangos o amgylch yr ysgol i hysbysebu hyn.





Photos courtesy of the school



# Ysgolion yn cymryd camau i fynd i'r afael â digwyddiadau hwyliog

Dyma rhai enghreifftiau ledled y DU a welswyd ar Trydar o ysgolion yn bwrw ati i leihau costau a phwysau gweithgareddau difyr yn ystod y flwyddyn ysgol.

**Keith Rondeau**
@HT_SMCoE

Today, the whole-school made their Christmas tee-shirts in readiness for parties next week. Not only is this great in terms of poverty proofing the school, but the kids bloody *love* it, even the big uns. School was absolutely buzzing!



4:25 PM · Dec 10, 2021 · Twitter for Android

2 Retweets 3 Quote Tweets 38 Likes

**Sir Hoad**
@MrHoadMaths

95% of Christmas clothing contains unrecyclable plastics...

Attendance on Christmas Jumper days has been shown to drop around 4% (particularly impactful amongst disadvantaged groups)

There is another way of looking at it...




6:41 PM · Dec 9, 2021 · Twitter for Android

**Knowetop Primary**
@KnowetopPrimary

Some of our fabulous Cost of the School Day committee working on our pupil surveys and creating posters to raise awareness that we don't need to spend extra to celebrate Children in Need in school.
#CostoftheSchoolDay
#Article28 #Article29



# Ysgolion yn cymryd camau i fynd i'r afael â digwyddiadau hwyliog

Branston C of E Infant Academy
@BranstonInfant1

Very excited about our #PopUpLibrary bags this week! #WorldBookDay themed with a book for every child PLUS a voucher for another £1 book and extra treats to snuggle up with on #WBD for our live story! @povertyproofcne @WSHEnglishHub @TomFletcher @JosephACoelho @JonnyDuddleDum




9:53 AM · Mar 1, 2021 · Twitter for iPhone

1 Retweet 3 Quote Tweets 17 Likes

Keith Rondeau
@HT_SMCoE

We work really hard to Poverty Proof the school day. We have had no Christmas jumpers, but every child has designed their own Christmas tee-shirt; they absolutely loved it! A @SMCoE_Pensnett Christmas incurs no cost to our fab school community! @povertyproofcne @Georgina_NE



4:32 PM · Dec 16, 2020 · Twitter for Android

4 Quote Tweets 29 Likes

Sarah Glover
@gloverino

@povertyproofcne All children able to take part as resources provided and time given in tutor time to complete!

David Lovell @davelovell5 · Dec 16, 2020
Year 7 and 8 have taken the "deck the doors" competition to the next level on Dove campus @deferrers. Very proud of them all! #workhard



# Ysgolion yn cymryd camau i fynd i'r afael â digwyddiadau hwyliog

**Haimo Primary School**
@HaimoSchool

Y2 Raheem Sterling Class have been making their own Christmas jumpers ahead of #ChristmasJumperDay this Friday! Loving the sustainable action being taken @povertyproofcne #TeachSDGs #ResponsibleConsumption #ReduceReuseRecycle 🎄 ♻️ @sterling7




**InspiringLesmahagow**
@LHS_EQUITY

Some great new additions of winter jackets (and some beautiful prom dresses 👗) to our pre-loved hub this week! If you would like to know more about what's available, please speak to Miss Fletcher, Mrs Smith, or your Pupil Support teacher. @SLCEquity




1:52 PM · Oct 22, 2021 · Twitter for iPhone

# Canllawiau

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil hwn, mae CPAG a Children North East wedi datblygu canllawiau ar gamau y gall ysgolion, cyrff rhieni ac elusennau eu cymryd i sicrhau bod cael hwyl yn yr ysgol yn golygu cynnwys pob disgybl a bod pawb yn medru mwynhau. Rydym hefyd wedi tynnu sylw at rai awgrymiadau ymarferol y gwyddom y gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol i brofiadau disgyblion a theuluoedd o'r gweithgareddau hyn.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gan ddisgyblion, ysgolion, cyrff rhieni ac elusennau sydd â syniadau, awgrymiadau neu enghreifftiau o sut mae sicrhau bod codi arian mewn ysgolion yn gynhwysol i bawb. Byddwn yn parhau i rannu enghreifftiau o arferion da a syniadau i gefnogi'r rhai sydd am fynd i'r afael â'r mater hwn. Cysylltwch â UKcosd@cpag.org.uk i rannu eich syniadau a'ch enghreifftiau.

# Canllawiau ar gyfer ysgolion

Beth yw'r gost bresennol o gael hwyl yn eich ysgol? Rydym yn annog ysgolion i archwilio ac ymchwilio i'r costau tebygol i deuluoedd sy'n gysylltiedig â chael hwyl yn eich ysgol. Gall hyn helpu i ddarparu mesur sylfaenol y gellir gwneud cynnydd yn ei erbyn. Dylai ysgolion:

1. **Cynnal asesiad o'r flwyddyn ysgol** a nodi faint o wahanol ddiwrnodau elusennol, codi arian, diwrnodau di-wisg a gwisgo i fyny rydych chi'n eu rhedeg ar hyn o bryd, ac ar ba adegau o'r flwyddyn. Ystyriwch a ellid cwtogi neu adael digon o amser rhyngddynt, ac a ellid rhoi mwy o rybudd i deuluoedd. Ystyriwch hefyd sut y gallwch sicrhau bod pob disgybl yn gallu cymryd rhan.

2. Cynnal asesiad o **gost eich dathliadau rheolaid i deuluoedd** e.e. partïon Nadolig, cerfio pwmpenni Calan Gaeaf, a phen-blwyddi, a chynhwyswch unrhyw gosta cudd megis gwisgoedd ar gyfer disgos neu arian poced ar gyfer byrbrydau. Ystyriwch sut y gellid darparu’r rhain heb gostau neu gyda chostau is i deuluoedd..

O ran cynllunio gweithgareddau hwyliog drwy gydol y flwyddyn ysgol, mae nifer o ffyrdd y gall ysgolion helpu i sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn briodol i ddisgyblion a theuluoedd ac nad ydynt yn creu pwysau diangen. Dylai ysgolion:

3. Ymgynghorwch â **chymuned eich ysgol a'i chynnwys wrth gynllunio eich calendr digwyddiadau hwyliog.** Gofynnwch i'r disgyblion a'r rhieni am gostau cyfredol a pha mor fforddiadwy yw’r digwyddiadau hwyliog, a deall ganddyn nhw sut y gallwch gynllunio gweithgareddau sy'n gweithio i’r gymuned ac yn adlewyrchu’r achlysuron a'r achosion y maent yn poeni amdanynt.

4. **Sicrhau bod cynhwysiant a fforddiadwyedd yn ystyriaethau allweddol wrth gynllunio gweithgareddau hwyliog yn yr ysgol.** Mabwysiadwch ddulliau ysgol gyfan yn hytrach na chymorth wedi'i dargedu tuag at blant o deuluoedd incwm isel. Er enghraifft, yn hytrach na chynnig siwmperi Nadolig sbâr neu wisgoedd gwisgo i fyny i rai plant, ystyriwch sut y gellir lleihau costau gwisgo i fyny ar gyfer pob teulu – mae rhai ysgolion yn darparu crysau-t i bawb eu haddurno.

5. **Datblygu cyfleoedd i dderbyn mewnbwn rhieni** i lywio’r calendar ysgol, digwyddiadau penodedig a’r costau cysylltiedig. Gall sefydlu CRhA neu grŵp rhieni fod yn un ffordd o gefnogi hyn.

6. Sicrhau bod **cynhwysiant a fforddiadwyedd wrth wraidd dathliadau ffarwelio**. Sut y gall eich ysgol sicrhau bod pob person ifanc yn cael ei gynnwys yn y dathliad?

Cynnig cyngor: **Ystyriwch cynhyrchu calendr cost ar gyfer y flwyddyn**, yn gosod cynlluniau codi arian, digwyddiadau tymhorol a dathliadau gyda chostau tebygol ynghlwm er mwyn osgoi ceisiadau byr rybudd i deuluoedd sy'n anodd eu goresgyn.

Cynnig cyngor: **Monitro presenoldeb disgyblion ar ddiwrnodau di-wisg a gwisgo i fyny** i ddeall a yw'r rhain yn rhwystr i addysg.

# Canllawiau ar gyfer ysgolion

Rydym yn gwybod bod diwrnodau a gweithgareddau codi arian elusennol yn rhan gyffredin o galendr yr ysgol, ond mae'n bwysig i ysgolion ystyried sut y gall pob disgybl gymryd rhan ac elwa o'r gweithgareddau hyn. Dylai ysgolion:

7. Ymgysylltu a chydweithio gydag elusennau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u hachos a'u gweithgareddau ymgyrchu gyda disgyblion, yn hytrach na chanolbwyntio yn llwyr ar weithgareddau codi arian.

8. Ymgynghorwch â'r disgyblion a gofynnwch am awgrymiadau am y mathau o elusennau ac achosion yr hoffent ganolbwyntio arnynt, gan sicrhau bod y rhain yn briodol i gymuned yr ysgol.

9. Ystyriwch sut y gellid **ymgysylltu â gwaith elusennau a'u hachosion heb gost i deuluoedd a phlant**, o ran rhoddion neu adnoddau. Er enghraifft, gallai disgyblion ysgrifennu llythyr at eu AS, gwneud poster neu gerdyn post, cynnal gwasanaeth neu lofnodi deiseb. Gweler ein Calendar Cost y Diwrnod Ysgol am fwy o syniadau ar sut i fynd i'r afael â diwrnodau codi arian.

Cynnig cyngor: Os yw rhoddion elusennol yn cael eu casglu yn yr ysgol (naill ai'n ariannol neu fel adnoddau), sicrhewch nad dyma brif ffocws y gweithgaredd, a'i gwneud yn glir ei fod yn wirfoddol rhoi, ac y gellid gwneud unrhyw rodd heb dynnu sylw at y rhoddwr.

Yn fwy cyffredinol, gwyddom y gall siarad am gostau ac arian gyda theuluoedd fod yn anodd am lawer o resymau. Ond gall peidio codi'r pwnc olygu bod teuluoedd yn colli allan ar gymorth ariannol, neu fod dim amcan ganddynt ble i fynd os ydynt yn cael trafferth talu costau'r ysgol, gan gynnwys digwyddiadau hwyliog. Dylai ysgolion:

10. **Ystyried sut ydych yn cyfathrebu gyda theuluoedd ynghylch costau ac arian** oherwydd, wedi'i wneud yn dda, gall hyn helpu i chwalu rhwystrau ariannol i addysg a sicrhau bod disgyblion a rhieni yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae CPAG yn yr Alban wedi creu adnodd gwych i helpu ysgolion drafod costau ysgol a gellid ei weld yma.

Adnoddau: Mae CPAG a Children North East wedi datblygu ystod o adnoddau i helpu ysgolion ddechrau meddwl am ffyrdd amgen o ddathlu digwyddiadau hwyliog yn yr ysgol. Mae ein calendr Cost y Diwrnod Ysgol a'n pecynnau cymorth ar gael am ddim i bob ysgol.

Hyfforddiant i ysgtolion: Mae'n bwysig bod gan staff ysgolion ddealltwriaeth glir o achosion a chanlyniadau tlodi plant fel y gallant weithredu polisïau ac arferion sy'n gynhwysol i bawb, gan gynnwys ymagweddau at ddigwyddiadau hwyliog. I gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant tlodi plant: cysylltwch â UKcosd@cpag.org.uk neu info@povertyproofing.co.uk

# Canllawiau ar gyfer cyrff rhieni

Mae Child Poverty Action Group a Children North East yn credu y dylai ysgolion gael eu hariannu'n ddigonol gan lywodraethau ledled y DU i sicrhau bod pob plentyn a theulu yn gallu cael mynediad at system addysg wirioneddol rydd a chynhwysol. Fodd bynnag, gwyddom nad yw hyn yn wir am ysgolion ar draws cenhedloedd y DU.

Mae cyrff rhieni (e.e, CRhA a chynghorau rhieni) yn chwarae rôl bwysig o ran codi arian i'r ysgolion a **helpu i'w gwneud yn lle gwell i ddisgyblion ddysgu a chael hwyl.** Yn aml maent yn codi arian er mwyn rhoi cymhorthdal tuag at weithgareddau fel tripiau ysgol, disgos a chlybiau ôl-ysgol. Caiff y gweithgareddau hyn eu gwerthfawrogi a'u mwynhau gan gymuned yr ysgol, ac maent yn helpu i ehangu cyfleoedd disgyblion.

Gall cyrff rhieni hefyd ddarparu **cyswllt defnyddiol a modd cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni**. Gallant helpu i adnabod rhai o'r heriau y mae rhieni'n eu hwynebu, gan gynnwys rhwystrau ariannol, a gweithio gyda'r ysgol i'w goresgyn.

Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos bod gweithgareddau cyrff rhieni weithiau'n **rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar deuluoedd oherwydd galwadau uniongyrchol am arian**. Yma, rydym yn amlinellu rhai dulliau y gall CRhA a chynghorau rhieni eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw eu gwaith pwysig yn cefnogi cymuned yr ysgol yn achosi straen ariannol yn anfwriadol at deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd.

**Rydym yn annog cyrff rhieni i gynllunio unrhyw weithgaredd gyda'r ysgol gyfan mewn golwg ac ystyried y dulliau hyn. Dylai cyrff rhieni:**

1. **Meddwl am fforddiadwyedd wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau a digwyddiadau**, a gwirio a ellir ailystyried neu leihau costau. Gallwch wneud i'r CRhA weithio ar ran bob teulu trwy fabwysiadu agwedd ysgol gyfan i godi arian a digwyddiadau. Er enghraifft, gwnewch yn siwr bod pawb yn medru mynychu disgo'r ysgol a gofynnwch i rieni am rodd wirfoddol tuag at y tocynnau o flaen llaw.

2. **Bod yn ymwybodol o amseru digwyddiadau er mwyn osgoi gofyn am sawl peth ar y tro**. Wrth gynllunio ac amserlennu digwyddiadau, sicrhewch eich bod yn ymwybodol o unrhyw geisiadau eraill am gyfraniadau ariannol, gan gynnwys tripiau a digwyddiadau.

3. Mae teuluoedd hefyd yn gwerthfawrogi cael gymaint o rybudd ymlaen llaw â phosibl ar gyfer unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd.

4. **Wrth asesu llwyddiant unrhyw ddigwyddiad, ystyriwch pa mor gynhwysol ydoedd a faint o bobl wnaeth gymryd rhan**, yn lle ffocysu yn unig ar faint o arian a godwyd. **Ceisiwch godi arian o ffynonellau eraill, ar wahân i blant a theuluoedd yn eich ysgol**. A oes busnesau lleol a allai helpu drwy nawdd neu roddion? A allech godi arian y tu allan i'r ysgol, efallai drwy bacio bagiau yn eich archfarchnad leol? Mae rhai CRhA yn defnyddio dulliau codi arian arlein sy'n galluogi teuluoedd i roi pan ydynt yn siopa arlein, heb unrhyw gost ychwanegol iddynt. Gweler enghraifft o hyn yma.

# Canllawiau ar gyfer cyrff rhieni

Cynnig cyngor: **Chwiliwch am fodd i osgoi casglu arian parod ar ddiwrnod digwyddiad neu weithgaredd.** Ystyriwch opsiynau gwahanol fel cynlluniau arlein sy'n galluogi rhieni i dalu heb dynnu sylw.

Cynnig cyngor: **Dylech gynnwys amrywiaeth o weithgareddau am ddim mewn unrhyw ddigwyddiad mawr yr ydych yn bwriadu ei wneud yn agored i bawb.** Er enghraifft, os ydych yn trefnu ffair ysgol, gwnewch yn siwr bod tro am ddim i bob disgybl neu docynnau ar gyfer gweithgareddau, fel nad ydynt yn colli allan.

Cynnig cyngor: **Defnyddiwch eiriad clir wrth gyfathrebu gyda theuluoedd fel eu bod yn gwybod bod gofynion ariannol yn opsiynol.** Er enghraifft, os ydych yn cynllunio diwrnod di-wisg, gallech ddweud rhywbeth tebyg i: "Rydym yn falch o fod yn codi arian ar gyfer [yr ysgol/enw'r elusen] drwy'r gweithgaredd hwn, ac rydym yn croesawu rhoddion gwirfoddol gan deuluoedd sy'n gallu eu fforddio. Mae pob rhodd yn ddienw, a does dim angen rhoi os nad ydych chi'n gallu gwneud hynny."

**Gall sicrhau bod lleisiau a phrofiadau rhieni ar draws yr ysgol gyfan yn cael eu clywed hefyd yn helpu i sicrhau bod eich gweithgareddau CRhA neu'r Cyngor Rhieni yn gweithio i gymuned yr ysgol.**

5. **Sicrhewch fod eich CRhA yn cynnwys ystod gynrychioliadol o rieni o'r gymuned.** Gall hyn helpu i sicrhau bod y pwysau ariannol a brofir gan rai teuluoedd yn cael eu hystyried a'i ddeall yn fwy helaeth. Os yw hyn yn fwy anodd i'w gyflawni, mae'n bwysig bod aelodau presennol yn mynd ati i ddarganfod anghenion teuluoedd yr ysgol.

# Canllawiau ar gyfer elusennau

Gall elusennau chwarae rhan bwysig er mwyn sicrhau bod pawb yn mwynhau gweithgareddau codi arian mewn ysgolion ac nad ydynt yn anfwriadol eithrio neu gosod o dan anfantais bellach ddisgyblion a theuluoedd a allai fod yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Rydym yn annog elusennau i ystyried y dulliau hyn a'u defnyddio i helpu i lywio eu gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.

1. **Codi ymwybyddiaeth o fewn eich sefydliad o'r heriau y gall codi arian mewn ysgolion eu cyflwyno i ddisgyblion a theuluoedd ar incwm isel** a sicrhau bod hyn yn llywio ac yn rhan weithredol o'r ystyriaethau sy'n cael eu gwneud wrth gynllunio gweithgareddau codi arian mewn ysgolion.

2. Ystyried sut y gall unrhyw ddeunyddiau, gwybodaeth a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â chodi arian mewn ysgolion **ddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r pwysau ariannol y gallai plant a theuluoedd fod yn eu hwynebu**. Er enghraifft, canolbwyntio'n bennaf ar sut y gall disgyblion ymgysylltu â'r achos, a chyflwyno amrywiaeth o ffyrdd i gefnogi'r achos gyda chodi arian yn un o amryw opsiynau.

3. **Dylunio a hyrwyddo gweithgareddau ar gyfer ysgolion y gall pob disgybl gymryd rhan ynddynt a gwneud hynny'n ffocws allweddol**, gydag unrhyw ofynion am rhoddion yn eilradd a di nod. Er enghraifft, gallai disgyblion ysgrifennu llythyr at eu AS, gwneud poster neu gerdyn post, cynnal gwasanaeth neu lofnodi deiseb.

4. Gall rhai adegau o'r flwyddyn fod yn arbennig o ddrud i deuluoedd, megis diwedd tymor, y cyfnod cychwn yn ôl i'r ysgol a'r cyfnod cyn y Nadolig. Sut allwch chi sicrhau nad yw eich elusen yn gofyn i deuluoedd godi arian o gwmpas y cyfnodau hyn?

Cynnig cyngor: **Darparwch amrywiaeth o opsiynau a gweithgareddau i ysgolion ynghylch ennill diddordeb disgyblion yng ngwaith eich elusen**, sy'n caniatáu bod ysgolion yn gwneud penderfyniadau am yr hyn a fydd yn gweithio orau i'w cymuned ysgol.

Cynnig cyngor: Trwy gyfathrebu ac ymwneud â disgyblion, gwnewch yn siŵr eich bod yn **diolch iddynt am eu hamser, eu syniadau a'u brwdfrydedd**, , yn hytrach na chlodfori'r rhai a wnaeth roddion neu a gododd arian.

Cynnig cyngor: Anogwch ysgolion drwy eich deunyddiau a'ch negeseuon i roi digon o rybudd i deuluoedd am unrhyw weithgareddau sydd i ddod er mwyn osgoi rhoi pwysau diangen ar ddisgyblion a rhieni.

Mae elusennau hefyd yn medru gweithio gyda gwasanaeth elusennau *Poverty Proofing©* Children North East. Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu ac ymgynghori â staff elusennol, uwch arweinwyr a chymunedau ynglŷn â'u diben, eu nodau a'r systemau y maent yn gweithio ynddynt, mewn ymdrech i leddfu tlodi. Mae'r gwasaneth yn annog elusennau i fyfyrio ar eu heffaith fel sefydliad, gan ganolbwyntio ar ddileu anghydraddoldebau hygyrchedd i'r rhai sy'n profi tlodi. cysylltwch â info@povertyproofing.co.uk am fwy o wybodaeth.

# Amdanom ni

## Child Poverty Action Group

Mae Child Poverty Action Group yn gwejithio ar ran y mwy nag un o bob pedwar plentyn yn y DU sy'n tyfu i fyny mewn tlodi.
Nid oes rhaid iddo fod fel hyn. Defnyddiwn ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi tlodi a'r effaith y mae'n ei gael ar fywydau plant i ymgyrchu dros bolisïau a fydd yn atal ac yn datrys tlodi – am byth. Rydym yn darparu hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth i sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio'n galed yn cael y cymorth ariannol sydd ei angen arnynt. Yr ydym hefyd yn cyflawni gwaith cyfreithiol proffil uchel i sefydlu a diogelu hawliau teuluoedd. Rhifau elusennau cofrestredig: 294841 and SC039339

30 Micawber Street
Llundain N1 7TB
cpag.org.uk

## Children North East

Mae Children North East yn bodoli oherwydd gall tyfu i fyny fod yn anodd.. Rydym yn gwneud gwahaniaeth gall newid byd i fabanod, plant a phobl ifanc yn eu teuluoedd, ysgolion a chymunedau. Rydym yn cynnig cymorth ar yr adegau hynny pan all ychydig o gymorth wneud gwahaniaeth mawr i blentyn a'i ddyfodol. Yn y pendraw, ein nod yw sicrhau bod pob baban, plentyn a pherson ifanc yn y Gogledd Ddwyrain yn tyfy i fyny yn iach ac yn hapus waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau teuluol.
Boed yn eu teulu, yn yr ysgol neu yn eu cymuned leol, yr ydym yma i gefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni yn y Gogledd Ddwyrain a thu hwnt. Rhif Elusen: 222041

89 Denhill Park
Newcastle upon Tyne, NE15 6QE
children-ne.org.uk

## Cost y Diwrnod Ysgol

Dechreuwyd prosiect Cost y Diwrnod Ysgol gan CPAG yn yr Alban yn 2014 gyda'r nod o leihau'r rhwystrau ariannol sy'n atal disgyblion rhag cymryd rhan lawn yn y diwrnod ysgol. Mae'r dull Cost y Diwrnod Ysgol yn cynnwys gweithio gyda chymunedau ysgol gyfan (disgyblion, rhieni, athrawon a staff ysgol) i nodi a lleihau'r rhwystrau cost a wynebir gan ddisgyblion o gefndiroedd incwm isel. Yn sgil llwyddiant y prosiect hwn yn Glasgow a Dundee, mae CPAG wedi ffurfio partneriaeth â Children North East ac wedi ehangu'r prosiect i awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr ac ardaloedd eraill yn yr Alban. Ariennir y prosiect hwn gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Pears Foundation, Cymdeithas Tai Orbit, Cyngor Dinas Coventry a Bwrdeistref Frenhinol Greenwich a diolchwn iddynt am eu cefnogaeth barhaus.
cpag.org.uk/CoSD

## Poverty Proofing© the School Day

Datblygwyd prosiect Poverty Proofing© the School Day gan Children North East. Mae'r prosiect yn darparu pecyn cymorth i leihau stigma sydd ynghlwm gyda thlodi, dileu rhwystrau i ddysgu a chynorthwyo ysgolion i archwilio'r ffordd fwyaf effeithiol o wario arian ysgol a ddarperir i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r prosiect yn cynnal archwiliad o bob ysgol, yn clywed gan ddisgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. O ganlyniad, caiff bob ysgol cynllun gweithredu unigryw i fynd i'r afael ag unrhyw bolisïau neu arferion sy'n stigmateiddio.. Yna, mae cyfle i gael achrediad yn dilyn ymweliad adolygu. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant i staff a llywodraethwyr ar dlodi a'r effaith y mae'n cael ar addysg.